

CEREBRAL PALSY CYMRU

# Adolygiad Blynyddol ac Adroddiad Effaith 2022-23

# Ni yw Cerebral Palsy Cymru.

Rydym yn elusen gofrestredig ac yn ganolfan ragoriaeth genedlaethol.

Ein cenhadaeth yw gwella ansawdd bywyd pob plentyn sy’n byw gyda pharlys yr ymennydd yng Nghymru.





# Neges Cyfarwyddwr a Chadeirydd y Ganolfan

Roedd 2022/2023 yn flwyddyn arbennig i ni wrth i ni ddathlu ein pen-blwydd yn 30 oed. Dros y tri degawd diwethaf, mae Cerebral Palsy Cymru wedi cynnig therapi a chymorth arbenigol i filoedd o blant a theuluoedd ledled Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Mae enw da Cerebral Palsy Cymru fel arweinydd ym maes trin a rheoli parlys yr ymennydd yn tyfu y tu hwnt i Gymru, diolch i'n gwasanaeth ymyrraeth gynnar arloesol 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol', sy'n darparu therapi arbenigol i fabanod a phlant o adeg eu geni hyd at ddwy flwydd a hanner.

Sefydlwyd Cerebral Palsy Cymru gan grŵp o rieni ymroddedig a phenderfynol 30 mlynedd yn ôl. Daeth eu breuddwyd o agor canolfan i blant yma yng Nghymru i'w plant nhw, ac i lawer o deuluoedd eraill, yn realiti ar 12 Mehefin 1992, ac eleni rydym wedi achub ar y cyfle i ystyried ac i ddathlu popeth rydym wedi'i gyflawni gyda'n gilydd ers hynny.

Tri degawd yn ddiweddarach, ac mae'r un genhadaeth yn berthnasol i'n helusen – gwella ansawdd bywyd pob plentyn yng Nghymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd – plant fel Chester, y gallwch ddarllen ei stori yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn. Dim ond un o blith y 76 o fabanod a gafodd eu hatgyfeirio at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar y llynedd yw Chester. Dyma'r nifer uchaf o fabanod a gafodd eu hatgyfeirio ers lansio'r rhaglen yn 2015, ac rydym yn rhagweld y bydd y galw am y gwasanaeth hwn yn cynyddu.

Mae'r galw cynyddol am ein gwasanaethau, ynghyd â chostau uwch, wedi creu amgylchedd gweithredu heriol, ac wedi rhoi pwysau eithriadol ar ein hadnoddau ariannol a'n staff. Rydym yn awyddus i fod yno i unrhyw deulu sydd ein hangen, ac felly mae cynyddu ein hincwm yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Felly, roedd yn bleser gennym benodi dau aelod o staff hanfodol eleni – gan benodi Marie Wood i rôl Cyfarwyddwr Codi Arian a Chyfathrebu, a Marc Roberts i swydd Pennaeth Manwerthu. Bydd Marie, Marc a gweddill yr Uwch-dîm Arwain yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i ymateb i'r heriau ariannol sy'n ein hwynebu ac i ddatblygu model busnes cynaliadwy.



Gan edrych ymlaen i'r dyfodol, ein nod dros y 10 mlynedd nesaf yw cynyddu ein capasiti a'n hadnoddau er mwyn gallu gweld mwy o blant o bob oed wrth iddynt gyrraedd pob carreg filltir hanfodol, ond er mwyn cyflawni'r uchelgais hwn, mae angen cymorth ariannol gan y sector cyhoeddus a'r sector preifat.



*Jenny Carroll MA MCSP PGC(HE)*
*Cyfarwyddwr y Ganolfan*

Unwaith eto, hoffem ddiolch o waelod calon i'n Gwirfoddolwyr, ein Staff, ein Hymddiriedolwyr, ein Swyddogion Codi Arian a'n Cefnogwyr am eu gwaith caled, eu hymrwymiad, eu hegni a'u cefnogaeth barhaus. Er ein bod yn cydnabod y bydd heriau o'n blaenau, rydym yn credu'n gryf, gyda'n gilydd, y gallwn barhau i wneud gwahaniaeth i newid bywydau'r plant a'u teuluoedd yng Nghymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.



*J Frank Holmes*
*Cadeirydd*

Ewch i www.cerebralpalsycymru.org neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol i gael mwy o ddiweddariadau elusennol, newyddion codi arian a straeon gan ein teuluoedd a defnyddwyr ein gwasanaethau.

/CerebralPalsyCymru @cp_cymru @cp_cymru @cp_cymru

Gallwch hefyd gofrestru i dderbyn ein e-Gylchlythyr misol: www.cerebralpalsycymru.org/newsletter

# Ein blwyddyn mewn rhifau 2022-2023

Cyfeiriwyd **76** o fabanod at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol'.



Cyflwynwyd **1,054** o sesiynau therapi gan ein tîm therapi arbenigol.

Cafodd **293** o blant ledled Cymru therapi a chymorth gennym.

Cynhaliwyd **11** o gylchoedd chwarae Gwell Cychwyn Gyda'n Gilydd yn ein canolfan newydd i blant – dros 18 awr o hwyl a chwarae!




Mae angen i ni sicrhau tua **£2 filiwn** o incwm bob blwyddyn.




Gwerthwyd **145,619** o eitemau yn ein pedair siop elusen, gan ein helpu i godi swm anhygoel o swm anhygoel o **£389,934**

Cynhaliwyd **132** o sesiynau cymorth i deuluoedd gyda'n Cydlynydd Cymorth i Deuluoedd ymroddedig. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cyngor ymarferol a chymorth emosiynol i'r teuluoedd hynny sydd eu hangen.

Hwyluswyd a chyflwynwyd **5** cwrs hyfforddi gan ein tîm therapi i **76** o weithwyr proffesiynol o bob cwr o'r DU ac o bob cwr o'r byd!



Ar gyfartaledd bob blwyddyn, daw 83% o'n hincwm o roddion, rhoddion mewn Ewyllysiau, ymddiriedolaethau, ein siopau elusen, digwyddiadau codi arian a rhoddion corfforaethol. Daw tua 17% o'r hyn sydd ei angen arnom o ffynonellau statudol.





# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH Â THEULUOEDD A THIMAU CYMUNEDOL.

Eleni, atgyfeiriwyd y nifer uchaf o fabanod erioed at ein gwasanaethau! Atgyfeiriwyd cyfanswm o 76 o fabanod at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar arbenigol, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol'. Ar hyn o bryd, mae ein ffocws yn parhau ar ymyrraeth gynnar. Mae gwaith ymchwil yn dangos po gynharaf y bydd plentyn â pharlys yr ymennydd, neu blentyn y mae risg uchel bod ganddo barlys yr ymennydd, yn cael therapi arbenigol, y mwyaf fydd yr effaith ar ganlyniadau'r plentyn yn y dyfodol.

Lle bo adnoddau ar gael, rydym yn darparu ein therapi a'n cymorth arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at 18 oed, oherwydd gall therapi wneud newid sylweddol i bob grŵp oedran. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, yn aml mewn partneriaeth â byrddau iechyd lleol ledled Cymru, drwy ddarparu therapi wyneb yn wyneb yn ein canolfan i blant yng Nghaerdydd, ar ffurf rithwir i deuluoedd na allant deithio i gael therapi, neu mewn lleoliadau therapi lleol sy'n agosach at gartref y teulu.

Gwnaethom ddarparu cyfanswm o 1,054 o sesiynau therapi ledled Cymru yn 2022-2023. Roedd 834 o'r sesiynau hyn yn ein canolfan i blant neu ar-lein, a chynhaliwyd 220 ohonynt yn un o'r saith bwrdd iechyd ledled y wlad. Mae darparu therapi mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y GIG yn rhan bwysig iawn o'r hyn a wnawn.


Fel rhan o'n rhaglen allgymorth, mae ein tîm therapi yn teithio ledled y wlad, o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yng Ngorllewin Cymru, i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngogledd Cymru a hyd yn oed Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn agosach i gartref.



Mae darparu therapi yn y gymuned yn cynnig y cyfle i ni weithio'n agosach â Therapyddion Cymunedol y GIG o bob cwr o Gymru, gan feithrin cydberthnasau a helpu i wella sgiliau timau lleol drwy gynnig cyfleoedd dysgu wedi'u teilwra'n bersonol iddynt, drwy weithio mewn partneriaeth â'n tîm therapi arbenigol.

Rydym yn deall nad yw'r holl ddisgyblaethau therapi (ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a therapi lleferydd ac iaith) mewn rhai ardaloedd yng Nghymru yn cael cyfleoedd i gydweithio'n agos ac felly mae ein therapyddion yn aml yn darparu cyngor a therapi, gan ddefnyddio trefniadau gweithio trawsddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod plan sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd a'u teuluoedd yn cael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

Fel elusen, rydym yn deall pwysigrwydd therapi, ac yn gwybod po fwyaf o arian y gallwn ei godi, y mwyaf o therapi y gallwn ei ddarparu. Dyna pam ein bod yn ddiolchgar iawn am y partneriaethau elusennol sy'n ein galluogi i gynnig profiadau unigryw a chyfoethog i blant o wahanol oedrannau ac sy'n wynebu gwahanol anawsterau. Prosiectau fel ein partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, a adeiladodd yr ardd synhwyraidd a llesiant yn ein canolfan i blant i'n teuluoedd ei mwynhau ac i blant ei defnyddio fel rhan o'u sesiynau therapi, a BBC Plant mewn Angen a ariannodd ein prosiect ESCAPADES! Prosiect.



## ESCAPADES! 2023

Ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2022 a mis Mawrth 2023, diolch i gyllid a ddarparwyd gan apêl Plant mewn Angen y BBC, gwnaethom lwyddo i gynnig sesiynau therapi arbenigol i naw person ifanc â Dosbarthiad Lefel IV/V ar y Raddfa Dosbarthu Echddygol Bras (GMFCS) fel rhan o'n prosiect ESCAPADES! Prosiect.

Cafodd pob person ifanc sesiynau unigol wedi'u teilwra at ei nodau personol, yn ogystal â gweithgareddau grŵp a oedd yn canolbwyntio ar gyfranogi, cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol, gan ddefnyddio ein gwahanol synhwyrau fel fframwaith – edrych, gwrando, teimlo, symud a blasu. I lawer o bobl ifanc â pharlys yr ymennydd difrifol, mae cymdeithasu a chyfranogi mewn cymdeithas yn aml yn eithriadol o anodd.

Roedd pob person ifanc a gymerodd ran yn ein grŵp ESCAPADES! yn ddi-eiriau ac yn cyfathrebu i ryw raddau drwy fynegiadau wyneb, dulliau lleisio, pwyntio â'r llygaid gan ddefnyddio system gyfathrebu technoleg isel a thechnoleg uchel.



. Roedd ein prosiect ESCAPADES! yn rhoi amser iddynt ryngweithio ar lefel gymdeithasol â'r cyfranogwyr eraill, gyda chymorth ein therapyddion. Drwy wrando ar y bobl ifanc a'u rhieni a chlywed beth yr hoffent ei gyflawni drwy'r sesiynau grŵp, lluniodd ein therapyddion weithgareddau y byddai pob un o'r bobl ifanc yn gallu manteisio arnynt a chymryd rhan ynddynt gyda'i gilydd.

Un o uchafbwyntiau ein grŵp ESCAPADES! ym mis Mawrth oedd y cyfle i archwilio ein gardd synhwyraidd yn ystod sesiwn plannu, gan archwilio a defnyddio ein synhwyrau Cyffwrdd, Arogli a Gweld.

*"Yn ystod y sesiwn hon, cafodd y bobl ifanc y cyfle i chwarae gyda gweadau nad oeddent wir wedi cael profiad ohonynt yn flaenorol, fel pridd gwlyb a phlanhigion a oedd yn cosi neu blanhigion pigog. Roedd yn hyfryd gweld y bobl ifanc yn cymryd rhan mor frwd yn ein helpu i blannu'r goeden blodau ceirios, ar y cyd â garddwyr Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru", dywedodd Helen Burnsford, Arweinydd Prosiect ESCAPADES! ac un o'n therapyddion Lleferydd ac Iaith. Cafodd pawb gymaint o hwyl, ac rydym yn ffodus iawn bod y cyfleusterau hyn ar gael i ni allu eu cynnwys fel rhan o'r sesiynau therapi, gan gynnig sesiynau mor amrywiol a hwyliog â phosibl!"*

Gyda chefnogaeth | Supported by
BBC
Plant mewn Angen
Children in Need
© BBC 2007 Elusen gofrestredig Cymru a Lloegr no. 802052 a Alban no. SC039557
Reg. charity England & Wales no. 802052 and Scotland no. SC039557



## SICRHAU MAI TEULUOEDD SYDD WRTH WRAIDD EIN SEFYDLIAD

Sefydlwyd Cerebral Palsy Cymru i deuluoedd, gan deuluoedd, yn 1992. Glenys Evans, ein Swyddog Cymorth i Deuluoedd, oedd un o'r rhieni a sefydlodd yr elusen ac mae wedi bod yn gysylltiedig â'r elusen ers 1989. Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi ymgymryd â nifer o rolau gan gynnwys ysgrifennydd i'r pwyllgor llywio, ymddiriedolwr a gwirfoddolwr. Ymunodd â'n tîm o staff yn 1998 ac mae wedi bod yn helpu ein teuluoedd ers hynny. Mae gan fab Glenys, Thomas (sydd bellach yn 40 oed), barlys yr ymennydd, sy'n golygu bod ganddi gyfoeth o wybodaeth a dealltwriaeth i'w rhannu â'r teuluoedd sy'n dod i'n canolfan.

Rydym yn deall bod cael plentyn sydd â pharlys yr ymennydd yn effeithio ar y teulu cyfan, gan gynnwys aelodau o'r teulu fel neiniau a theidiau, modrybedd ac ewythrod. Fel sefydliad, ein nod yw sicrhau bod ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar y teulu a sicrhau bod y teulu wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am sicrhau bod ein teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u grymuso fel y gallant helpu eu plentyn yn y ffordd orau bosibl, ac un ffordd o wneud hynny yw cynnig ein Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd yn rhad ac am ddim i unrhyw deulu y mae ei angen arno.




Hwylusodd Glenys 132 o sesiynau cymorth i deuluoedd 1:1 yn ystod y flwyddyn, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt gyda theuluoedd a babanod o dan 2 oed. Hi hefyd oedd y pwynt cyswllt cyntaf i rieni a gwarcheidwaid y 76 o fabanod a gafodd eu hatgyfeirio at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol'.

*"Os oes gennych bryderon am eich baban neu'ch plentyn bach, rwyf yma i wrando arnoch a helpu gorau y gallaf" dywed Glenys. "Efallai eich bod wedi cael profiad o enedigaeth drawmatig, neu efallai fod eich plentyn wedi cael diagnosis o barlys yr ymennydd yn ddiweddar ac nad ydych o bosibl yn gwybod beth mae hyn yn ei olygu. Rwyf hefyd yma i'r rhieni hynny sydd â phlentyn hŷn ac sydd am siarad â rhiant arall sydd â phrofiad o fagu plentyn â pharlys yr ymennydd. Beth bynnag fo'r pryder, rwyf yma i helpu."*

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ein:
- Gwasanaeth cymorth i deuluoedd
- Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol (i fabanod hyd at 2½ oed â pharlys yr ymennydd neu y mae risg uchel bod ganddynt barlys yr ymennydd)
- Cylch Chwarae Gwell Cychwyn Gyda'n Gilydd (i fabanod hyd at 2½ oed sy'n defnyddio ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar ar hyn o bryd)

Cysylltwch â Glenys Evans:

Glenyse@cerebralpalsycymru.org
02920 522 600.




## STORI CHESTER

**Mae Chester yn un o'r 500 o fabanod a gafodd eu hatgyfeirio at ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar arbenigol, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol' ers i ni lansio'r gwasanaeth ddiwedd 2015.**
**Mae ei rieni, Richard a Charlotte, wedi cytuno'n garedig i rannu stori eu teulu er mwyn dangos sut mae 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol' yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd ledled Cymru.**

"Cafodd Chester ei eni'n annisgwyl iawn yn 27+1 wythnos, a hynny gartref gyda chymorth ei dad, yn pwyso dim ond 1.18kg. Cafodd ei ruthro'n syth i'r Uned Ddwys i Fabanod Newyddenedigol (NICU) ac er ei fod i weld fel petai'n gallu anadlu'n iawn ar ei ben ei hun i ddechrau, o fewn 24 awr, roedd wedi rhoi'r gorau i anadlu a bu'n rhaid iddo gael ei ddadebru.



Arweiniodd hyn at waedlif gradd 3 a 4 ar ei ymennydd. Roedd cyfnod Chester yn NICU yn gymysgedd eithriadol o brofiadau da a drwg ac roedd yn adeg emosiynol iawn i ni. Cafodd haint e-coli a bu'n rhaid iddo gael nifer o drallwysiadau gwaed, triniaethau awyru ocsigen, pigiadau mewngefnol a thapiau fentriglaidd er mwyn helpu i ddraenio'r hylif gormodol ar ei ymennydd.

Ar ôl 102 o ddiwrnodau yn NICU, daeth Chester adref ar ocsigen. Roedd yn gyfnod gofidus iawn i'r ddau ohonom, ond daeth ein nyrs allgymorth i'n gweld bob wythnos i roi help a chymorth i ni. Bob wythnos, roedd yn dibynnu llai ar ocsigen ac o'r diwedd, ar ôl 3 mis, llwyddodd Chester i roi'r gorau i'w gymorth ocsigen yn llwyr.



Cawsom wybod gyntaf am Cerebral Palsy Cymru gan ein meddyg ymgynghorol Rachel, wrth i ni drafod ei gynllun ar gyfer dod adref. Soniodd Rachel am wasanaeth ymyrraeth gynnar yr elusen 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol' a oedd yn helpu babanod fel Chester. Ar ôl i ni adael yr ysbyty, cysylltodd cydlynydd cymorth i deuluoedd Cerebral Palsy Cymru, Glenys Evans, â ni am drafodaeth gychwynnol, a dim ond ychydig wythnosau'n ddiweddarach, trefnwyd ein sesiwn gyntaf.



Yn ystod ein hymweliad cyntaf, gwrandawodd Gosia, un o therapyddion arbenigol Cerebral Palsy Cymru, a Glenys, ar ein stori gan roi cymorth gwerthfawr iawn i'r ddau ohonom, a chan wrando ar ein gofidiau a'n pryderon. Cawsom ymarferion a fyddai'n helpu Chester i ddatblygu yn seiliedig ar ein nodau fel teulu. Roedd gennym ymdeimlad o ryddhad a phositifrwydd ar ôl ein sesiwn gyntaf, gan wybod fod y fath gymorth ar gael i ni ac nad oedd y dyfodol mor frawychus.

Ers y sesiwn therapi gyntaf honno yn Cerebral Palsy Cymru, mae Chester wedi datblygu'n sylweddol. Pan ddechreuodd ei sesiynau gyntaf, prin y byddai'n defnyddio ei law dde nac yn troi ei ben i'r dde.

Fodd bynnag, diolch i'r therapi a gafodd, mae Chester bellach yn dechrau defnyddio ei ddwy law. Mae'r wybodaeth rydych yn ei meithrin drwy weithio ochr yn ochr â thîm therapi arbenigol Cerebral Palsy Cymru yn eich helpu i ddeall sut mae'r ymennydd yn gweithio a pham y gall rhai pethau penodol fod yn anodd i fabanod fel Chester. Mae'r help a'r cymorth rydych chi'n eu cael o'r sesiynau therapi hyn yn hollol wych. Gan ddefnyddio'r hyn rydym yn ei ddysgu yn ystod y sesiynau gartref, mae Chester wedi mynd o nerth i nerth. Mae'n fachgen bach penderfynol iawn, ac mae'r therapi ymyrraeth gynnar a'r cymorth i deuluoedd wedi bod mor werthfawr i'n teulu ni.

Mae llawer o rieni sy'n cael babanod cynamserol yn pryderu am y dyfodol, ac mae'n bwysig iddynt allu rhoi'r help a'r cymorth gorau posibl i'w plentyn.

Mae 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol' yn gwneud yn union hynny – mae'n rhoi'r help a'r cymorth sydd eu hangen er mwyn i rieni allu rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i'w babanod.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi helpu Chester ar ei daith hyd yn hyn. Heb Cerebral Palsy Cymru, ni fyddai unrhyw ran o'r daith honno wedi bod yn bosibl. Mae'r cymorth a gawsom fel teulu wedi bod yn amhrisiadwy ac maent wedi rhoi cymaint o obaith i ni. Rydym yn gwybod, yn y bôn, mai diolch i'r rhoddion y mae Cerebral Palsy Cymru yn eu cael y gellir darparu'r gwasanaeth hwn i deuluoedd fel ni, ac na fyddai Chester yn ffynnu cystal heddiw heb 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol'."



# CODI ARIAN HANFODOL I WNEUD GWAHANIAETH I BLANT A THEULUOEDD LEDLED CYMRU




Daw mwy nag 80% o'n hincwm bellach o roddion, rhoddion mewn Ewyllysiau, ymddiriedolaethau, ein siopau elusen, digwyddiadau codi arian a phartneriaethau a rhoddion corfforaethol. Felly rydym yn parhau i fod yn hynod ddiolchgar i bob un o'n cefnogwyr am ein helpu i wneud gwahaniaeth sy'n newid bywydau plant a theuluoedd sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd ledled Cymru. Yn ystod 2022/23, gwnaethom addasu i'r 'normal newydd' ar ôl pandemig COVID-19, ac roeddem wrth ein bodd gallu ailddechrau ein calendr digwyddiadau.

O hedfan drwy'r awyr ar weiren wib yn Zip World Aberdâr, mwynhau danteithion cartref blasus yng nghwmni teulu a ffrindiau drwy gydol mis Mai fel rhan o'r digwyddiad 'Cacen a The ar gyfer CP', a siopa Nadolig yn ein Marchnad Nadolig, i'r unigolion a redodd Hanner Marathon Caerdydd ar ein rhan, roedd yn hyfryd gallu cynnig amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau codi arian unwaith eto i'n ffrindiau, ein teuluoedd a'n cefnogwyr i'n helpu i godi arian hanfodol.

Drwy gydol misoedd yr haf, gwnaethom hefyd gynnal nifer o ddigwyddiadau arbennig i ddathlu ein pen-blwydd eleni, fel ein Taith Gerdded Pen-blwydd 30, lle daeth dros 150 o'n teuluoedd, ein ffrindiau a'n cefnogwyr ynghyd i rannu eu straeon a'u profiadau personol gyda'i gilydd wrth i ni gerdded o amgylch Bae Caerdydd.

Gwnaethom hefyd wahodd y rhieni a sefydlodd yr elusen, sef grŵp o unigolion anhygoel a aeth ati i godi arian ac i lunio deiseb i sefydlu canolfan therapi arbenigol i blant yma yng Nghymru i'w plant ac i lawer o deuluoedd eraill, i'n cartref newydd yn Llanisien er mwyn cael cyfle am glonc ac i ddathlu.

Mae dulliau codi arian digidol a phoblogrwydd cynyddol heriau codi arian ar Facebook wedi chwarae rhan hanfodol wrth recriwtio cefnogwyr newydd i'n helusen, ac roeddem wrth ein bodd pan gymerodd dros 160 o unigolion o bob cwr o Gymru, a thu hwnt, ran yn un o ddwy her a gynhaliwyd gennym i godi arian ar Facebook yn ystod y flwyddyn. Roedd 125 ohonynt yn codi arian gyda ni am y tro cyntaf.

Er gwaethaf yr argyfwng costau byw a'r cynnydd mewn costau ynni a oedd i'w gweld yn amlwg yn y penawdau yn ystod yr wythnosau cyn y Nadolig, roedd yn ardderchog gweld ein cefnogwyr yn llwyddo i ddod at ei gilydd beth bynnag i'n helpu unwaith eto i gyrraedd ein targed ar gyfer yr Her Nadolig y 'Big Give' ac i ragori ar y targed hwnnw.Diolch i'r cymorth cyllid cyfatebol gan The Hospital Saturday Fund, Barratt Homes, ac Ymddiriedolaeth Simon Gibson, llwyddwyd i godi £23,814 mewn dim ond 7 diwrnod er mwyn helpu i ariannu ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol'.

Wrth i ni symud i mewn i 2023, roedd yn bleser gennym unwaith eto gymryd rhan fel y prif lais yng Nghymru er mwyn dangos ein bod yn cefnogi Mis Ymwybyddiaeth Parlys yr Ymennydd drwy gydol mis Mawrth. Un o'r uchafbwyntiau oedd croesawu ein cennad diweddaraf, yr Athletwr Paralympaidd o Gymru, Olivia Breen, i'n canolfan i blant i gyfarfod â'r bobl ifanc a oedd yn cymryd rhan yn ein grŵp ESCAPADES!

Drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom barhau i feithrin y cydberthnasau arbennig sydd gennym â'n partneriaid corfforaethol, a hoffem ddiolch i Slater and Gordon, Mowgli Street Food,

Ysbyty St Joseph, Hugh James, Blue Self Storage, ymhlith eraill. Mae eu cefnogaeth i gymaint o'n digwyddiadau, ymgyrchoedd ac apeliadau drwy gydol y flwyddyn yn anhygoel. Incwm gan Ymddiriedolaethau yw un o'n ffynonellau cymorth mwyaf.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Sefydliad Moondance, y Sefydliad Elusennol Fasonaidd, BBC Plant mewn Angen a Sefydliad Garfield Weston yn benodol am eu cefnogaeth hanfodol.

Fel elusen sy'n gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein teuluoedd wrth wraidd popeth a wnawn, mae'n bleser gennym nodi am bob £1 a gaiff ei gwario ar weithgareddau codi arian, ein bod yn cynhyrchu £5.







Wrth i ni edrych i'r dyfodol, bydd y cynnydd o ran atgyfeiriadau a chostau uwch yn golygu y bydd angen i ni barhau i gynyddu ein hincwm codi arian. Mae'r Uwch-dîm Arwain a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wrthi'n ystyried sut y gallwn ddatblygu model busnes mwy cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Yn ogystal ag atgyfnerthu ein hincwm codi arian, mae ein strategaeth pum mlynedd yn anelu at sicrhau cymorth gan Lywodraeth Cymru i'n rhaglen ymyrraeth gynnar, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol', er mwyn buddsoddi yn ein darpariaeth hyfforddiant drwy ddatblygu mwy o gyrsiau ar-lein a datblygu gwasanaeth therapi sy'n hunanariannu i ategu'r ddarpariaeth elusennol. Byddwn hefyd yn datblygu ein gweithrediad manwerthu, gan agor pumed siop yn 2024 ac ymrwymo i safleoedd ychwanegol yn y blynyddoedd i ddod.





# BYD RHYFEDDOL MANWERTHU ELUSENNAU

Fel elusen, rydym yn cael ein cefnogi gan nifer bach ond cynyddol o siopau elusen unigryw yng Nghaerdydd, Bro Morgannwg a Rhondda Cynon Taf. Mae pob un o'n siopau yn arbenigo mewn ailwerthu eitemau ail-law y mae aelodau o'r gymuned leol yn ddigon caredig i'w rhoi i ni, ac mae'r elw a wneir o werthu'r eitemau hyn yn gyfrifol am ryw 26% o'n cyfanswm incwm codi arian.

2022/2023 oedd y flwyddyn gyntaf ers cyn pandemig COVID-19 lle llwyddodd pob un o'n siopau i fasnachu am gyfnod llawn o 12 mis heb unrhyw gyfyngiadau neu adegau lle bu'n rhaid iddynt aros ar gau.

Yn ogystal â'n galluogi i gynhyrchu cyfanswm incwm o £445,949, rhoddodd hyn gyfle i ni groesawu llawer o'n gwirfoddolwyr a'n cwsmeriaid rheolaidd yn ôl i'r siopau.

. Gwerthwyd cyfanswm o dros 144,000 o eitemau ail-law yn ein pedair siop ac ar ein llwyfannau manwerthu ar-lein yn 2022/2023. Pe na fyddai'r eitemau hyn wedi cael eu rhoi i elusen, byddai llawer ohonynt wedi diweddu ar safleoedd tirlenwi. Yn ogystal â'r eitemau ail-law a ailwerthwyd gennym, gwnaethom hefyd ailgylchu dros 80 tunnell o eitemau yr ystyriwyd nad oeddent yn addas i'w gwerthu yn ystod y flwyddyn.

*"Mae'r Sector Manwerthu Elusennol yn profi twf eithriadol, wedi'i lywio'n bennaf gan ffactorau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol" dywed Marc Roberts, a ymunodd â ni ym mis Ionawr 2023 fel ein Pennaeth Manwerthu newydd. "Mae'r dyddiau lle nad oedd pobl am brynu eitemau mewn siop elusen wedi hen fynd, mae prynu eitemau ail-law yn ffasiynol erbyn hyn ac rydym yn gweld mwy a mwy o gwsmeriaid ifancach yn siopa ochr yn ochr â'n cwsmeriaid rheolaidd bob dydd, gan chwilio am eitemau fforddiadwy o ansawdd uchel.*




*Mae'n hyfryd gweld y siopau yn brysur ac yn llawn gweithgarwch eto. Mae siopau elusen yn holl bwysig, nid yn unig i'r sefydliadau y maent yn eu cefnogi drwy gynnig incwm digyfyngiad iddynt, ond hefyd i'r amgylchedd yn gyffredinol ac i gymunedau lleol. Rwy'n edrych ymlaen at ddatblygu ein strategaeth manwerthu ac at helpu Cerebral Palsy Cymru i ddarparu opsiynau manwerthu cynaliadwy ardderchog yn y dyfodol."*

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un o'n gwirfoddolwyr a'n staff manwerthu am yr oriau lawer y maent yn eu treulio yn didoli ac yn prosesu'n ofalus y degau o filoedd o eitemau a gaiff eu rhoi i'n siopau bob blwyddyn, yn gwasanaethu cwsmeriaid â gwên, ac yn rhoi o'u hamser a'u profiad i'n helpu i barhau i wneud gwahaniaeth i blant a theuluoedd ledled Cymru sy'n byw gyda pharlys yr ymennydd.

Sganiwch y cod QR â chamera eich ffôn clyfar i wylio fideo o'n gwirfoddolwyr yn sôn am yr effaith gadarnhaol y mae gwirfoddoli wedi'i chael arnynt.












# DADANSODDIAD O INCWM A GWARIANT




Codi Arian £815,464

Manwerthu £453,823

Byrddau Iechyd £332,761

Arall £69,174

**Cyfanswm yr incwm: £1,671,222**



Darpariaeth therapi £988,450

Manwerthu £289,436

Codi Arian £230,837

Arall £228,245

**Cyfanswm y gwariant: £1,736,968**

Yn ogystal â'r incwm a nodir ar y dudalen gyferbyn, roeddem yn ffodus bod gennym incwm mewn blynyddoedd blaenorol a bennwyd i gwmpasu prosiectau a threuliau yn ystod y flwyddyn ariannol hon.




Yn 2022/2023, gwnaethom ddarparu 1054 o sesiynau i 293 o deuluoedd. Cawsom 179 o ymatebion i'n ffurflenni adborth gan rieni a gaiff eu cwblhau ar ôl pob ymyrraeth, a chafwyd y canlyniadau canlynol:

- Roedd 100% o'r farn bod ansawdd ein gwasanaeth rhwng 8-10 allan o 10.
- Roedd 100% o'r farn bod eu boddhad â'r sesiwn therapi a gawsant ar lefel o 8-10 allan o 10.
- • Roedd 100% o'r farn bod y sesiwn therapi wedi eu helpu i feithrin gwybodaeth am anghenion eu plentyn ac i'w deall ar lefel o 8-10 allan o 10.
- • Roedd 94% wedi gweld newid cadarnhaol yng ngalluoedd eu plentyn o ganlyniad i'r sesiynau therapi, er enghraifft, "Mae bellach yn archwilio pethau gan roi pwysau ar ei bengliniau a chan hefyd ddefnyddio ei freichiau i dynnu ei hun ymlaen, nad oedd yn gwneud cyn y sesiwn."
- • Roedd 100% o'r teuluoedd yn cytuno bod y sesiwn therapi wedi ymdrin â'u pryderon, boed hynny'n rhannol, i raddau helaeth neu'n llwyr.
- • Roedd 100% o'r teuluoedd o'r farn bod ein Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd yn 'werthfawr,' "Llefais y tro cyntaf i mi siarad â Glenys. Roeddwn i'n teimlo mai dyma oedd y tro cyntaf yr oedd unrhyw un wedi gwrando o ddifrif arnaf. Wna i fyth anghofio hynny."

Cawsom 51 o ymatebion i'n Harolwg Cymorth i Deuluoedd blynyddol a ddosbarthwyd i rieni/gofalwyr ym mis Gorffennaf 2022. Cawsom ymatebion o ardaloedd pob bwrdd iechyd yng Nghymru, gyda'r nifer mwyaf o ymatebion yn dod o ardal Cwm Taf Morgannwg (33%). Dysgwyd y canlynol:

Yr atebion mwyaf poblogaidd i'r cwestiwn a oedd am gael gwybod sut roedd ein Gwasanaeth Cymorth i Deuluoedd wedi helpu teuluoedd yn ystod eu cyfnod gyda Cerebral Palsy Cymru oedd: Bod y gwasanaeth wedi rhoi gwybodaeth a chyngor iddynt o ran sut i gael gafael ar gymorth ar gyfer eu plentyn; Bod y gwasanaeth wedi rhoi cymorth ymarferol iddynt; a bod y gwasanaeth wedi rhoi gobaith iddynt ar gyfer y dyfodol.

Yr atebion mwyaf poblogaidd i'r cwestiwn a oedd am gael gwybod gan y rhai hynny a oedd yn mynychu ein cylch chwarae misol Gwell Cychwyn Gyda'n Gilydd sut roedd y cylch wedi eu helpu, gyda thros 74% yn eu dewis, oedd: Bod y cylch wedi gwella sgiliau rhyngweithio cymdeithasol eu plentyn; a bod y cylch wedi rhoi mwy o gyfleoedd iddynt gymdeithasu â rhieni/gofalwyr eraill.

Dywedodd 47% o deuluoedd nad oeddent wedi cael cymorth i'w teulu gan unrhyw un arall heblaw Cerebral Palsy Cymru.

Ar ôl sefydlu ein gwasanaeth ymyrraeth gynnar yn seiliedig ar dystiolaeth, 'Dechrau Gwell, Gwell Dyfodol' yn 2015, mae 470 o fabanod a'u teuluoedd o bob cwr o Gymru wedi manteisio ar y gwasanaeth. Mae gan ein rhaglen ymyrraeth gynnar enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth, ac rydym wedi cael ceisiadau i ymweld â'r ganolfan gan wledydd fel Brasil, Gwlad Belg, Sbaen a Singapore. Fe'n gwahoddwyd hefyd i gyflwyno ein gwaith mewn cynhadledd genedlaethol yn y maes yn Slofenia ym mis Mai 2023, gan y Grŵp Buddiant Arbennig Ymyrraeth Gynnar Ewropeaidd.

Rydym hefyd yn cyd-arwain y broses o ddatblygu Cofrestr Parlys yr Ymennydd Cymru er mwyn coladu data i helpu i gynllunio gwasanaethau, tai ac ati yn well, i wella safonau gofal ac yn y pen draw, i leihau nifer yr achosion o barlys yr ymennydd. Bydd y gwaith hwn yn golygu mai Cymru fydd y wlad gyntaf ym Mhrydain Fawr i weithredu Cofrestr Parlys yr Ymennydd.

Mae gennym enw da yn rhyngwladol am ein gwybodaeth, ein sgiliau, ein hastudiaethau archwilio a'n hyfforddiant, gan ddarparu rhaglenni hyfforddiant i wella sgiliau therapyddion yng Nghymru ac, yn gynyddol, ledled y byd. Rydym hefyd yn cyflwyno effaith ein gwaith a chanlyniadau astudiaethau archwilio i gynadleddau rhyngwladol, gan gyfrannu at yr enw da y mae Cymru yn ei datblygu fel arweinydd byd-eang wrth drin a rheoli parlys yr ymennydd.



CEREBRAL PALSY CYMRU


**Cerebral Palsy Cymru**
1 Y Cwrt
73 Rhodfa Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DX

02920 522600
info@cerebralpalsycymru.org



Rhif Elusen: 1010183
Rhif Cwmni Cyfyngedig: 2691690



**Ymddiriedolwyr**
Frank Holmes
Christine Barber
Caroline Cooksley
Stephen Jones
Paul Lubas
Toby Jones
Jason Llewellyn
Vicky Stevenson
Lisa Tregale



**Archwilwyr**
Partneriaeth Clifton House, Clifton House, Four Elms Road, Caerdydd, CF24 1LE

**Bancwyr**
Banc Barclays plc, St Davids Way, Caerdydd, CF10 2DP



Registered with FUNDRAISING REGULATOR

